

## PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD MERCHER, 18 IONAWR 2023

### Presenoldeb:

### Cynghorwyr:

Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, John Pughe Roberts a Ioan Thomas

### Swyddogion:

Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

H Eifion Jones (Cadeirydd Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Richard Medwyn Hughes a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 3. MATERION BRYD

Hysbyswyd yr aelodau bod Mr Huw Trainor wedi derbyn swydd newydd gyda Grŵp Llandrillo Menai ac o ganlyniad bydd angen ethol cynrychiolydd cyflogwr newydd i'r Bwrdd Pensiwn.

Yn unol â threfn statudol o ethol aelodau i'r Bwrdd, amlygwyd bod tymor cyntaf rhai o aelodau'r Bwrdd yn dod i ben, ac er gellid ail-benodi unrhyw gynrychiolydd am gyfnod pellach yn y swydd, yn amodol ar eu hail-enwebu yn ôl yr angen, bod angen gwneud hynny yn ffurfiol. Yn sgil cyhoeddiad Mr Huw Trainor, ystyriwyd mai amserol fyddai dechrau'r broses o ail benodi yn ehangach yn Chwefror / Mawrth 2023. Ategwyd y byddai'r aelodau presennol yn cael eu hysbysu o drefniadau'r broses gyhoeddus ac o'r bwriad i benodi pum aelod (nodwyd eithriad i gynrychiolydd Cyngor Gwynedd gan fod y penodiad yn un diweddar iawn ac wedi ei warchod). Yr Aelod Cabinet (Cyllid), y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro fydd y panel cyfweld.

### 4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2022 fel rhai cywir.

## 5. CYMERADWYO CYLLIDEB 2023/24: UNED GWEINYDDU PENSIYNAU A'R UNED BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i gyllideb ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023–2024

Adroddwyd bod y gyllideb bellach yn cael ei chymeradwyo yn flynyddol gan y Pwyllgor Pensiynau. Cyfeiriwyd at un addasiad i Gyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau o ailraddio 1 swydd ac incrementau staff eraill. Nodwyd nad oedd y gyllideb yn cynnwys ffioedd Rheolwyr Buddsoddi nac Ymgynghorwyr, gan ei fod yn wariant newidiol. Er hynny, nodwyd y byddai'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blynyddol y Gronfa. Ategwyd bod bwriad dechrau cofnodi costau'r gronfa gan lunio cynllun busnes erbyn cyllideb 2024/25.

Diolchwyd am yr adroddiad. Ystyriwyd fod y bwriad o gofnodi costau'r gronfa yn gam positif – bod cadw cofnod o drefniadau bilio a chostau'r gronfa yn bwysig iawn.

### PENDERFYNWYD

- Derbyn yr adroddiad
- Cymeradwyo Cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24

## 6. ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA

*Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion cyfredol, ynghyd a chais i'r Pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r amcanion ar gyfer 2023. Adroddwyd, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol, bu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nodi'r angen i Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi gan nodi yn glir yr hyn ddisgwylir ganddynt.*

*Adroddwyd bod Hymans yn cyflawni gwaith da, yn darparu adroddiadau chwarterol (sy'n cynnwys gradd buddsoddi cyfrifol ar gyfer pob rheolwr), adroddiadau cynhwysfawr ar gyfer y paneli buddsoddi, yn cynnig cyngor ymarferol ac yn perfformio yn unol â'r amcanion. Eglurwyd bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un prysur gyda'r ymgynghorwyr yn darparu cyngor pellach ar y strategaeth buddsoddi wrth ail strwythuro dyraniad asedau strategol y Gronfa yn dilyn y prisiad. Ategwyd bod hyn wedi bod yn ddarn o waith pwysig a manwl iawn a bu cydweithio da. Adroddwyd hefyd, gyda buddsoddi cyfrifol bellach yn faes blaenllaw, bod Hymans wedi cyd weithio gyda swyddogion y Gronfa i adolygu'r polisi buddsoddi cyfrifol, darparu cyngor ar fuddsoddiadau newydd a darparu ateb i'r ymgynghoriad TCFD.*

*Er nad yw Hymans yn darparu hyfforddiant drwy gytundeb uniongyrchol gyda Chronfa Gwynedd, bod hyfforddiant amserol ar gael drwy*

***Bartneriaeth Pensiwn Cymru, gyda chyfraniadau sylweddol gan Hymans. Er derbyn hefyd bod y ffioedd yn uchel (sydd yn wir hefyd am rai cwmnïau eraill yn y farchnad), amlygwyd dymuniad o dderbyn amcangyfrifad o gost y gwaith sy'n cael ei gytuno arno ymlaen llaw.***

***Cyfeiriwyd at yr amcanion cyfredol ynghyd a'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hynny yn ystod 2022. Amlygwyd bod dwy amcan newydd weid eu hychwanegu. Er nad oedd dymuniad i newid ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, bod rhaid er hynny herio eu perfformaid a sicrhau nad yw'r berthynas yn rhy 'gyfforddus'. Yn dilyn rhwystredigaeth o sefydlu trefniadau rhagfantoli arain cyfred ac o ganlyniad colli cyfle i fanteisio ar y gyfradd gyfnewid gyda phosibilrwydd o ychwanegu gwerth, ystyriwyd yr angen am anogaeth a chynngor mwy rhagweithiol ac amserol, fel bydd modd ymateb i gyfleoedd heb rwystredigaeth i'r dyfodol.***

***Ategodd yr Cadeirydd bod y cwmni yn darparu gwasanaeth da ac yn cyfarch yr amcanion sydd yn cael eu gosod gan y Pwyllgor.***

***Diolchwyd am yr adroddiad.***

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a'r angen i gyflymu prosesau, e.e. rhagfantoli arian cyfred, a'r risgiau posibl wrth wneud hynny, nodwyd bod rhwystredigaeth o beidio gweithredu yn gynt ac efallai i'r dyfodol y gall yr ymgynghorwyr buddsoddi dynnu sylw at gyfleoedd posib. Er hynny, amlygodd Cyfarwyddwr y Gronfa bod mabwysiadu'r drefn rhagfantoli arian cyfred yn gam sylweddol i'r Gronfa a bod cymeradwyaeth y Pwyllgor yn hanfodol wrth symud i'r drefn honno. Ategodd bod trothwyon i'r dyfodol bellach wedi eu sefydlu a chytundebau gyda BlackRock yn barod i weithredu o fewn diwrnod os daw cyfle.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol ynglŷn â'r budd o sefydlu proses ymateb brys, nodwyd, mewn argyfwng, bod y Prif Swyddog Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn gallu gweithredu hyn, ond mewn argyfwng yn unig. Byddai unrhyw newid mawr angen adroddiad i'r Pwyllgor a chymeradwyaeth cyn gweithredu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod adolygu'r amcanion strategol yn aml yn ymarfer da
- Y byddai arweiniad mwy pendant yn cael ei werthfawrogi
- Er wedi colli cyfleoedd, bod proses bellach yn ei lle i weithredu yn gynt
- Bod yr amcanion yn gosod heriau fydd yn ychwanegu gwerth
- Er cydweithio da, rhaid ceisio osgoi bod yn rhy gyfforddus

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a nodir adroddiad cynnydd**
- **Cymeradwyo amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi am y cyfnod nesaf fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1, yn ddarostyngedig i ychwanegu'r gair 'pendant' i amcan 7 'Darparu cynngor perthnasol ac amserol' -**

***'... gallai cynngor 'amgen' weithiau fod yn fwy rhagweithiol, pendant ac amserol ...'***

**7. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn egluro'r gofyn sydd ar y Gronfa i adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido pob tair blynedd, a hynny ar ôl y prisiad teirblyneddol; y bwriad yw cyhoeddi'r Datganiad Strategaeth Cyllido erbyn

31 Mawrth 2023.

Nodwyd mai prif bwrpas y datganiad yw adlewyrchu ffactorau'r prisiad gan bwysu a mesur fforddiadwyedd y cyflogwyr gyda amcanion hylifedd hir dymor y gronfa. Cyflwynwyd y datganiad (drafft) i'r Pwyllgor am gadarnhad o'r rhagdybiaethau a'r polisiau fel bod modd rhyddhau'r datganiad am ymgynghoriad gyda'r holl gyflogwr cyn mabwysiadu'n ffurfiol yn y pwyllgor nesaf.

Eglurwyd mai sail y ddogfen yw'r prisiad actiwaraid. Ategwyd bod y cyflogwyr wedi derbyn cyflwyniad gan yr actiwari ym mis Hydref lle datganwyd bod y canlyniadau yn bositif ar y cyfan gyda mwyafrif o'r cyflogwyr yn derbyn gostyngiad yn ei cyfraniadau.

Nodwyd bod y datganiad yn ddogfen faith a thechnegol wedi ei pharatoi mewn ymgynghoriad manwl gyda Hymans a swyddogion y gronfa. Cyfeiriwyd at y datganiad ynghyd a'r polisiau ategol. Eglurwyd bod y polisiau ategol fel arfer wedi eu hymgorffori yn y ddogfen ond cytunwyd, gyda chymeradwyaeth Hymans, i osod cyfeiriad at y polisiau yn y strategaeth, ond eu bod yn eistedd ar wahân ac felly'n haws i'w canfod / addasu pe byddai angen cyrraedd at wybodaeth neu ddiweddarau'r polisiau heb orfod addasu'r strategaeth i gyd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Er yn ddogfen faith a thechnegol, y cynnwys yn fanwl ac wedi ei osod allan mewn modd hawdd i'w ddilyn
- Bod yr iaith a ddefnyddir yn ddealladwy

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a chadarnhau'r tybiaethau a'r polisiau yn y Datganiad Strategaeth Cyllido (drafft)**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Cyllido (drafft) ar gyfer ymgynghoriad gyda holl gyflogwyr y Gronfa**

## **8. DIGWYDDIADAU 2023**

Cyflwynwyd rhestr o ddyddiadau ar gyfer 2023 oedd yn cynnwys dyddiadau pwyllgorau, paneli buddsoddi, sesiynau hyfforddi, fforymau gwybodaeth, seminarau a chynadleddau. Amlygwyd yr angen i enwebu Aelodau i fynychu'r fforymau, y seminarau a'r cynadleddau.

Nodwyd, bod dyddiad y Panel Buddsoddi oedd wedi ei drefnu ar gyfer 25ain o Fai bellach wedi ei ail drefnu ar gyfer 15eg o Fehefin 2023, oherwydd gwrthdaro gyda chyfarfod arfaethedig o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 25ain o Fai.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod angen cysylltu a chynnig lle i'r ddau aelod oedd wedi ymddiheuro
- Os na fydd enwebiad gan Aelod o'r Pwyllgor, bydd gwahoddiad yn cael ei ymestyn i aelodau'r Bwrdd Pensiwn

#### **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a chadarnhau enwebiadau ar gyfer mynychu digwyddiadau**

- 2023 gan gysylltu a chynnig lle i'r aelodau oedd wedi ymddiheuro.**
- **Ymestyn gwahoddiadau i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn os bydd llefydd gwag.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.00 y.h.

---

**CADEIRYDD**